

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd strategaethau cyflenwi addysg amgen ar gyfer addysg feddygol, ddeintyddol, nyrsio a fferyllol israddedig ac ôl-raddedig yn ystod y pandemig COVID-19





Dyddiad: 7fed Rhagfyr 2021

Deborah Edwards, Judith Carrier, Elizabeth Gillen, Maggie Hendry

WCEC / WCEBC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cefndir y Cwestiwn

- Mae'r pandemig COVID-19 wedi **effeithio'n ddifrifol** ar y ffordd draddodiadol o gyflenwi addysg mewn sefydliadau addysg uwch.

- Mae hyn wedi bod yn broblem benodol i **fyfyrwyr gofal iechyd** y mae eu haddysg barhaus yn **hanfodol** i gynnal gweithlu gofal iechyd hyddysg sy'n barod i ymarfer.

- Mae **pontio** i **ddysgu brys o bell** wedi'i roi ar waith ledled y byd ac mae amrywiaeth eang o strategaethau cyflenwi addysg amgen wedi'u defnyddio, yn amrywio o **raglenni cyfunol** (cyfuno dysgu o bell a dysgu yn yr ystafell ddosbarth) i **ddysgu'n llwyr o bell**.

- Mae rhaglenni o bell yn amrywio o ddulliau 'ystafell ddosbarth rithwir' **cydamserol** (adnoddau wedi'u cyflenwi'n fyw, gan ganiatáu cwestiynau a chyfranogiad myfyrwyr mewn amser real) i **anghydamserol** (adnoddau h.y. darlithoedd wedi'u recordio ymlaen llaw, ac ati, ar gael ar-lein i fyfyrwyr eu cyrchu fel y mynnan nhw, cynifer o weithiau ag y mynnan nhw).

- Nod strategaethau o'r fath yw galluogi **dysgu o bell effeithlon**, gan ddefnyddio offerynnau digidol yn lle'r amgylchedd addysgu yn y cnawd.

- Yng nghyd-destun COVID-19, mae'n bwysig gallu mesur **effeithiolrwydd y strategaethau cyflenwi addysg amgen** hyn.

# Cwestiwn Ymchwil

**Cyfranogwyr:**
- Myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig
- Meddygaeth, Nyrsio, Deintyddiaeth a Fferylliaeth

**Ymyrraeth:**
- Ffyrdd penodol o gyflenwi addysg yn ystod COVID-19

**Cymhariaeth:**
- Ffyrdd o gyflenwi addysg cyn COVID-19

**Deilliannau:**
- Gwybodaeth, sgiliau, hyder a chymhwysedd

Beth yw effeithiolrwydd strategaethau cyflenwi addysg amgen ar gyfer addysg feddygol, ddeintyddol, nyrsio a fferyllol israddedig ac ôl-raddedig yn ystod y pandemig COVID-19?

# Graddau'r dystiolaeth

**Myfyrwyr Deintyddol** (n=2)

Nododd y chwiliadau
- **1 astudiaeth ddisgrifiadol gymharol**
- **1 astudiaeth un cohort**

**Myfyrwyr Nyrsio** (n=3**)**

Nododd y chwiliadau
- **2 astudiaeth ddisgrifiadol gymharol**
- **1 astudiaeth ddisgrifiadol un cohort**

**Myfyrwyr Meddygol** (n=14)

Nododd y chwiliadau
- **5 astudiaeth ddisgrifiadol gymharol**
- **7 astudiaeth ddisgrifiadol un cohort**
- **2 hap-dreial wedi'i reoli**

**Myfyrwyr Fferylliaeth** (n=4)

Nododd y chwiliadau
- **2 astudiaeth ddisgrifiadol gymharol**
- **2 astudiaeth un cohort**

# Darganfyddiadau Allweddol

## Graddau a diweddaredd y Sylfaen Dystiolaeth

- Ni nodwyd unrhyw adolygiadau perthnasol a oedd eisoes yn bodoli yn ystod gwaith rhagarweiniol, felly canolbwyntiodd yr adolygiad ar 23 o astudiaethau sylfaenol, pob un ym maes addysg israddedig a dim un ohonyn nhw â'i sail yn y DU
- Roedd yr astudiaethau'n gymysgedd o:
  - Astudiaethau disgrifiadol cohort/ cymharol ynglŷn â dysgu o bell o'i gymharu â dysgu yn y cnawd (y flwyddyn academaidd flaenorol cyn COVID neu'r un flwyddyn academaidd, 2019/20)
  - Hap-dreialon wedi'u rheoli, yn cymharu platfformau ar-lein rhyngweithiol pwrpasol â fformat fideo safonol neu gyflwyniad ar sail gwerslyfr
- Roedd yna gryd dipyn o amrywioldeb rhwng astudiaethau o ran myfyrwyr, y math o ddysgu o bell a'r platfformau a ddefnyddiwyd, a'r mesurau deilliannau a roddwyd ar waith; roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar y wybodaeth a ddysgwyd
- Roedd mwyafrif yr astudiaethau o ansawdd isel neu ansawdd isel iawn, gyda meintiau samplau bach
- Cyhoeddwyd pob un o'r astudiaethau yn 2020 – 2021

# Darganfyddiadau Allweddol

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd

Gwerthfawrogwyd yr addysgu o bell, a llwyddwyd i ddysgu, ond mae **effeithiolrwydd** addysgu rhithiol o'i **gymharu** ag addysgu yn y cnawd yn llai clir

Meddygaeth:

- Enillwyd cymhwysedd a hyder yn ôl y myfyrwyr eu hunain, a chyflawnwyd sgiliau pwytho dangosadwy trwy gymryd rhan mewn dysgu o bell
- Fodd bynnag, roedd lefelau'r wybodaeth (gan gynnwys canlyniadau arholiadau) a enillwyd gan fyfyrwyr a dderbyniodd addysg rithiol neu gyfunol yn is o'u cymharu â'r rheini a dderbyniodd addysg yn y cnawd (hyder isel – isel iawn)
- Roedd defnyddio platfformau rhyngweithiol pwrpasol mewn hyfforddiant meddygol israddedig yn well na chyflwyniadau fideo safonol (hyder isel) neu gyflwyniadau 'gwerslyfrau' (hyder isel iawn)

# Darganfyddiadau Allweddol

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd

Deintyddiaeth:

- Arweiniodd dysgu o bell at ennill gwybodaeth (hyder isel), ond roedd sgiliau ymarferol a rhyngbersonol yn is yn ôl y myfyrwyr eu hunain yn achos dysgu o bell o'i gymharu â dysgu yn y cnawd (hyder isel iawn)

Nyrsio:

- Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod gwybodaeth wedi gwella, boed y dysgu wedi digwydd yn rhithiol neu yn y cnawd cyn COVID (hyder isel)
- Roedd lefelau hyder yn uwch pan roedd y dysgu neu'r asesu'n digwydd yn rhithiol o'i gymharu â dysgu neu asesu yn y cnawd (hyder isel)
- Roedd lefelau cymhwysedd yr un fath (hyder isel iawn)

# Darganfyddiadau Allweddol

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd

Fferylliaeth:

- Roedd dysgu rhithiol yn gysylltiedig â sgiliau uwch (mewn arholiadau clinigol strwythuredig gwrthrychol) ond roedd y wybodaeth (sgorau arholiadau) yn is nag yn y cohort cyn COVID; roedd sgorau cymhwysedd a hyder yn ôl y myfyrwyr eu hunain yn debyg rhwng y ddau grŵp (hyder isel iawn)

# Darganfyddiadau Allweddol

## Tystiolaeth o'r Ansawdd Gorau

Gwnaeth hap-dreial wedi'i reoli o fodiwl e-Ddysgu yn cymharu cynnwys rhyngweithiol â dysgu o bell seiliedig ar fideo o Raddfa Strôc y Sefydliad Iechyd Cenedlaethol i fyfyrwyr meddygol yn eu 5ed flwyddyn (n=75) (Suppan et al. 2021), ddangos sgorau gwybodaeth uwch

# Darganfyddiadau Allweddol

## Goblygiadau i Bolisi

- Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi dysgu o bell ac mae’n galluogi addysgu a dysgu parhaus yn y tymor byr o fewn amgylchiadau’r argyfwng
- Gellid bod angen sesiynau ymarferol amgen neu yn y cnawd ategol ar ôl yr argyfwng i roi sylw i anghenion dysgu ar gyfer rhai grwpiau myfyrwyr sydd dan anfantais
- Mae’n ymddangos bod y pontio o’r dulliau addysgu traddodiadol i ddulliau addysgu o bell yn effeithio ar berfformiad myfyrwyr mewn arholiadau, yn enwedig yn achos pynciau ymarferol eu sail ym meysydd deintyddiaeth a meddygaeth

# Darganfyddiadau Allweddol

## Goblygiadau i Bolisi, yn parhau..

- Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigonol i ddangos cywerthedd ar gyfer grwpiau arbenigol myfyrwyr gofal iechyd eraill
- Nid yw'n glir a fyddai dysgu o bell cynlluniedig, yn hytrach na dibynnu ar addasiadau mewn argyfwng, yn fwy effeithiol
- Mae angen ymchwil bellach gyda dulliau cadarn i werthuso strategaethau cyflenwi addysg amgen er mwyn darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisi yn y maes hwn

# Cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael

O'r 23 astudiaeth, ni chafodd yr un ei chynnal yn y DU, roedden nhw i gyd yn canolbwyntio ar israddedigion ac astudiaethau disgrifiol oedd y mwyafrif (n=21).

Roedd y 2 hap-dreial wedi'i reoli'n gwerthuso gwahanol ymyriadau fel nad oedd meta-ddadansoddiad yn briodol. Roedd gan y ddwy astudiaeth feintiau samplau bach a chyfraddau ymateb gwael

Roedd mwyafrif y darganfyddiadau yn yr adolygiad hwn o ansawdd isel neu isel iawn

# Cryfderau'r adolygiad

- Hyd y gwyddon ni, dyma'r adolygiad cyflym cyntaf o effeithiolrwydd strategaethau cyflenwi addysg amgen ar gyfer addysg feddygol, ddeintyddol a fferyllol israddedig ac ôl-raddedig yn ystod y pandemig COVID19
- Aeth adolygwyr gwahanol ati i sgrinio data, tynnu data a gwerthuso data'n feirniadol ac yna gwnaeth yr un ail adolygwr wirio hyn yn annibynnol o safbwynt manwl gywirdeb a chysonder

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

**RE**search

**GENER**ation

**A**ssimilation

**T**ransfer

**E**mbedding

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# E-bost WCEC:

[WC19EC@cardiff.ac.uk](mailto:WC19EC@cardiff.ac.uk)

# Gwefan WCEC:

[Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (ymchwiliechydagofalcymru.org)](https://ymchwiliechydagofalcymru.org)

*Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government